COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 6 MEHEFIN 2019, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd E Venables – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| DG Howells | RM James | B Sedgebeer | SG Smith |
| G Thomas | A Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Aspey, RM Granville, KL Rowlands a/ac SR Vidal

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

162. DATGAN BUDDIANNAU

Dim

163. DERBYN Y COFNODION

PENDERFYNWYD: I dderbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 14/03/2019 fel rhai gwir a chywir yn amodol ar newid yn cael ei wneud i gofnod rhif 158 - Amseroedd Arolygon y Cyfarfodydd;

(1) i gynnal ymgynghoriad arall â'r holl Aelodau er mwyn mynegi beth fyddai orau ganddynt o ran cyfarfodydd yn y bore, prynhawn neu gyda'r nos, gan gynnwys dewis dyddiau'r wythnos fesul pwyllgor ar gyfer holl gyfarfodydd y Cyngor;
(2) Os yw'n well gan Aelodau gynnal cyfarfodydd gyda'r nos, y byddai'n rhaid ymgynghori ag Undebau Llafur gan y byddai'n golygu gwneud newidiadau i delerau ac amodau cytundebol Swyddogion.

164. MONITRO AC ADOLYGU'R CYFANSODDIAD

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a hysbysai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am gais i adolygu elfennau'r Ymgynghoriad a chynnig i sefydlu Gweithgor o Aelodau'r Pwyllgor hwn i gynorthwyo gyda'r adolygiad.

Eglurodd fod y Swyddog Monitro wedi derbyn cais gan Aelod Etholedig am adolygiad o'r Cyfansoddiad. Nodwyd y cynigion canlynol:

(1) Bod y cyfnod ar gyfer cwestiynau a chynigion yn mynd yn ôl i 5 diwrnod, nawr bod adnoddau addas yn eu lle i ganiatáu cyfieithu amserol i'r Gymraeg;

(2) Bod, yn dilyn y cyflwyniadau a'r cyhoeddiadau gan aelodau'r Cabinet, yr Arweinydd, a'r Prif Weithredwr, aelodau yn cael gofyn cwestiynau na amserlenwyd am gyfnod o 15 munud;

(3) Bod y tri grŵp mwyaf sy'n gwrthwynebu, yn cael 3 munud (i'w gymryd o reol 3 munud y Pwyllgor Rheoli Datblygu) i wneud cyhoeddiadau neu gyflwyniadau i'r Cyngor;

(4) Amseroedd cyfarfodydd y Cyngor.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y cynigwyd ymhellach y dylid adolygu gweithdrefn Alw i Mewn y Cyngor i sicrhau ei bod yn gweithio'n effeithiol o fewn y Strwythur Craffu presennol a byddai'n amser da adolygu'r Weithdrefn Alw i Mewn yr un pryd â'r Cyfansoddiad.

Eglurodd yr argymhellwyd bod y Pwyllgor yn sefydlu gweithgor i adolygu'r elfennau o'r cyfansoddiad gyda chanlyniad yr adolygiad yn cael ei adrodd yn ôl i'r pwyllgor, ac wedi hynny i'r Swyddog Monitro i'w ystyried.

Gofynnodd Aelod mewn perthynas â 4.1 (2) os rhoddir y cyfnod o 15 munud i'r Pwyllgor cyfan neu fesul Aelod. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r 15 munud i'r Cyngor cyfan ac nid i Aelodau unigol.

Gofynnodd Aelod a fyddai'n bosibl cael Aelod Cabinet ar y Gweithgor, gan y byddai'n rhoi persbectif gwell i'r grŵp ar ystod ehangach o faterion.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

(1) Yn sefydlu gweithgor i edrych ar gydrannau amrywiol o'r Cyfansoddiad cyfredol sy'n cynnwys y Cadeirydd, Aelod Cabinet posibl, a'r 5 Aelod a restrir isod;

Cyng. G Thomas
Cyng. G Howells
Cyng. B Segdebeer
Cyng. RM James
Cyng. J Williams

Yn nodi y byddai canfyddiadau'r gweithgor yn cael eu hadrodd i'r pwyllgor gydag ystyriaeth wedi hynny gan y Swyddog Monitro a'r Cyngor.

## 165. RHAGLEN DATBLYGU AELODAU

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar gyflwyno Rhaglen Hyfforddi a Datblygu'r Cyngor i Aelodau a gweithgarwch cysylltiedig.

Eglurodd fod gan y Pwyllgor y swyddogaethau canlynol gyda chymorth gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn ôl yr angen:

1. Adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth gan yr Awdurdod o staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau'r Gwasanaethau Democrataidd,
2. Gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â darpariaeth o'r fath.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fanylion y sesiynau hyfforddi a datblygu a gynhaliwyd rhwng 30 Ebrill 2018 a 2 Mai 2019 i Aelodau. Eglurodd hefyd Sesiynau Hyfforddi'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a Sesiynau Briffio Cyn Cyfarfodydd y

Cyngor a ddarparwyd ers y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd diwethaf ar 14 Mawrth 2019.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd wybod am sesiwn hyfforddi arall yn yr arfaeth ar Sgiliau Cadeirio. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai hwn yn bwnc gwerthfawr.
Gofynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i'r Aelodau roi gwybod am unrhyw sesiynau hyfforddi a fyddai o fudd iddynt.

Gofynnodd Aelod a fyddai'n bosibl cael hyfforddiant ar y Systemau Lles a Budd-daliadau. Byddai hyn yn rhoi mwy o ddealltwriaeth i'r holl Aelodau, iddynt allu cyfeirio eu hetholwyr at y mannau cywir. Gofynnodd a fyddai'n bosibl iddo fod yn Fodiwl E-ddysgu a fyddai'n rhoi trosolwg cryno o'r hanfodion.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod hyn yn rhywbeth y gellid ei ddarparu fel sesiwn Datblygu Aelodau neu fel sesiwn Friffio Cyn Cyfarfodydd y Cyngor.

Gofynnodd aelod a ellid darparu gwybodaeth glir yn ystod yr hyfforddiant ar yr hyn all neu ni all Cynghorydd ei ddweud. Dylai'r hyfforddiant ymwneud mwy â chyfeirio eu hetholwyr yn hytrach na rhoi cyngor iddynt.

Gofynnodd Aelod a ellid darparu hyfforddiant ar gael sgyrsiau anodd â'r cyhoedd fel y gallant fod mewn sefyllfa well i ddelio â sefyllfaoedd ymosodol a sefyllfaoedd sensitif etc. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y gellid darparu hyn, gan fod hyfforddiant eisoes ar gael i Swyddogion ar y mater hwn. Eglurodd y byddai'n cysylltu ag AD i weld a ellid teilwra'r hyfforddiant hwn i Aelodau.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn ogystal â hyn, y byddai'n hapus i ddarparu adroddiad i'r pwyllgor nesaf ar Weithio'n Annibynnol a fyddai'n mynd law yn llaw â'r pwnc hwn.

Gofynnodd Aelod a ellid darparu rhagor o gyfarwyddiadau neu hyfforddiant ar sut i fewngofnodi a defnyddio'r system E-ddysgu gan fod nifer o aelodau yn cael anawsterau wrth fynd at y modiwlau E-ddysgu. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n e-bostio'r holl Aelodau i'w hannog i gwblhau'r modiwlau E-ddysgu ac y gallai roi'r holl wybodaeth fewngofnodi ofynnol iddynt.

Gofynnodd Aelod a ellid darparu hyfforddiant ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) gan fod nifer o Aelodau yn ei dderbyn ond heb fod yn ymwybodol o'i fanylion. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n edrych i weld a ellid darparu hyfforddiant ar hyn i'r holl Aelodau.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Y byddai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

(1) yn nodi cynnwys yr adroddiad;
(2) Yn adnabod meysydd eraill ar gyfer Datblygiad Aelodau yn nhermau'r System Lles a Budd-daliadau; Delio â Sgyrsiau Anodd a Sgiliau Cadeirio gyda manylion am hyn i'w rhannu'n ddiweddarach.

166. <u>BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u>

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a hysbysai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am yr eitemau a gynigwyd a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfodydd yn y dyfodol. Atodwyd yr eitemau a gynigwyd ar gyfer eu cynnwys yn y Flaenraglen Waith i'r adroddiad.

Gofynnodd i Aelodau a ellid cynnal y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Hydref yn gynt fel y gellid cyflwyno'r adolygiad o'r Cyfansoddiad i'r Pwyllgor cyn iddo fynd gerbron y Cyngor ym mis Hydref. Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai hyn yn fuddiol.

Gofynnodd Aelod mewn perthynas â'r system atgyfeirio, a oes yna ffordd y gallai Cynghorwyr reoli eu llwyth gwaith eu hunain gan nad yw'r system gyfredol yn caniatáu ar gyfer hyn.

Dywedodd y Cadeirydd y gellid trafod hyn yng nghyfarfod Atgyfeiriadau Aelodau ym mis Gorffennaf.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried y flaenraglen waith a gynigwyd ynghlwm â'r adroddiad hwn ac yn adnabod unrhyw feysydd eraill i'w hystyried mewn cyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol.

167. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 11:07